# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

# 16/11/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Blaenoriaethau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru

***12. Mohammad Asghar:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. OAQ(3)3232(FM)*

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Mae ein saith nod craidd yn pennu blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc. Yr ydym eisiau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y cyfle i wireddu eu llwyr botensial, ac er mwyn cefnogi hyn yr ydym yn cynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth lunio polisïau ac yn cymryd camau i ddileu tlodi plant.

### Adeiladu Morglawdd Hafren gyda Chyllid Preifat

***13. Rosemary Butler:*** *A yw'r Prif Weinidog wedi cael unrhyw drafodaethau ynglyn â chynigion i adeiladu Morglawdd Hafren rhwng Caerdydd a Weston gyda chyllid preifat. OAQ(3)3230(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn niwtral o ran ba dechnoleg allai fanteisio ar bosibiliadau ynni enfawr yr Hafren. Yr ydym yn derbyn casgliadau Llywodraeth y DU o'r astudiaeth o'r llanw ar aber Hafren, ond mae gennym ddiddordeb mewn clywed safbwyntiau eraill, yn enwedig y rhai hynny sydd ag efallai safbwynt ariannol ar gyfer y tymor hirach o ran technolegau posibl.

### Y Rhwydwaith Rheilffyrdd

***14. Nerys Evans:*** *Pa drafodaethau diweddar y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynglyn â'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru. OAQ(3)3237(FM)* [W]

**Y Prif Weinidog:** Yr oeddwn yn bresennol yng nghyfarfod bwrdd Network Rail ar 8 Medi, ac yno pwysleisiais mor bwysig i economi Cymru oedd troi prif reilffordd Great Western yn drydanol.

### Gwarchod Swyddi yn y Sector Cyhoeddus

***15. Leanne Wood:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr angen i warchod swyddi yn y sector cyhoeddus. OAQ(3)3220(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae swyddi'r sector cyhoeddus yn cynrychioli tua 28 y cant o'r holl swyddi yng Nghymru felly mae'n rhaid i unrhyw ymgais i ddiogelu swyddi'r sector cyhoeddus fod yn economaidd ac yn gymdeithasol yn sgîl yr effaith ar gymunedau. Nid wyf eisiau gweld yr economi'n gwaethygu'n fwriadol drwy wneud toriadau ar yr wyneb er mwyn sicrhau enillion ariannol yn y tymor byr sy'n cynyddu'r nifer sy'n ddi-waith, yn ychwanegu at y bil lles ac yn lleihau ansawdd y gwasanaethau.